

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 7fed o FAWRTH 2016 YN SWYDDFA'R CYNGOR, NEUADD PONTIETS AM 7.00.

Presennol: Alan Lewis (yn y gadair), Margaret Rees, Geoff Hewitt, Ian Evans, Tyssul Evans, Linda Williams, Heddwyn Jones, Aled Williams a'r Clerc, Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Geraint Rosser, Carrie Rees, Wendy Evans, Meic Bowen, Ellis Jenkins a Richard Thomas

Materion Personol

1368 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Deallwyd bod y Cynghorydd Richard Thomas yn ôl yn yr Ysbyty. Estynnwyd cyfarchion y Cyngor iddo am wellhad buan.

1369 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod diwethaf ar 01/02/2016 fel rhai cywir.

1370 Materion yn codi.

Tud. 1 Cofnod Rhif 1325 - Parcio Tacsis ym Mhontiets. - Gan fod y sefyllfa wedi gwaethygu penderfynwyd ein bod yn trefnu Cyfarfod safle gyda'r Cyngor Sir a'r Heddlu i drafod y mater ymhellach

Tud 3. Cofnod Rhif 1364 - Arwyddion Ceffylau yng Ngharwe - Bydd y Cyngor Sir yn gosod yr arwyddion cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

Tud 3. Cofnod Rhif 1364 - Cyflwr Cysgodfannau yng Nghymuned Trimsaran – Aros am ymateb oddiwrth Cyngor Cymuned Trimsaran.

Tud 3 . Cofnod 1367 - Glanhau Maes Parcio Pontiets - y gwaith wedi dechrau. Mae golau wedi torri yno a bydd rhaid edrych ar Gamera'r Garej i weld os yw'n dangos y troseddwyd.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

1371 Urdd Gobaith Cymru – Eisteddfod Genedlaethol 2016 -. Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

Cynghorwyr Ian Evans, Tyssul Evans ac Aled Williams yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

1372 Cymdeithas Lesiant Carwe - Gwresogydd newydd yng Nghlwb Pêl-droed a Chriced Carwe - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £2000.00 allan o Gronfa Ffoslas tuag at y gwaith

Ian, Tyssul ac Aled yn ail ymuno a'r cyfarfod.

1373 Teenage Cancer Trust– Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

1374 Gofal Mewn Galar- Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

Cynghorwr Tyssul Evans yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

1375 Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru 2017 - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

Tyssul yn ail ymuno a'r cyfarfod.

1376 Radio Glangwili – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

Cynghorwyr Ian Evans, Tyssul Evans ac Aled Williams yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

1377 Clwb Pêl-droed a Chriced Carwe - Peiriant Draeniad - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £2275.00 allan o Gronfa Ffoslas tuag at y gwaith.

Ian, Tyssul ac Aled yn ail ymuno a'r cyfarfod.

1378 Clwb Rygbi Pontiets - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

1379 Cylch Meithrin Gwynfryn Meinciau – Llythyr yn diolch am y rhodd.

1380 Cymdeithas Lesiant Carwe a'r Cylch – Llythyr yn diolch am y rhodd tuag at golau newydd yn y Neuadd.

1381 Cymdeithas Lesiant Pontiets - Llythyr yn diolch am gyfraniad tuag at logi'r Neuadd dros 'Caged Bird Society' a'r Llyfrgell.

Gohebiaeth gyffredinol :-

1382 Un Llais Cymru - Aelodaeth 2016-2017- Penodwyd y Cynghorydd Linda Williams fel ail gynrychiolydd y Cyngor.

1383 Eisteddfod Llangollen 2016- Ffurflen Tocynnau - Nodwyd y llythyr.

1384 Menter Cwm Gwendraeth Elli - Cyfarfod ar Drosglwyddo Asedau 09/03/16 - Nodwyd y llythyr.

1385 Cyngor Sir Gar – Hysbysiad ynghylch y Fersiwn Drafft o Ganllawiau Cynllunio Atodol – Nodwyd y llythyr.

1386 Cyngor Sir Gar - Newid cyflymder yn Llangyndeyrn - Gofynnir am Gyfarfod Safle ynglŷn ag Ysgol y Fro a Heol Dwr, Llangyndeyrn.

1387 Cyngor Sir Gar – Twmpau ym Mhedair Heol – Nodwyd y llythyr gyda balchder.

1388 Cyngor Sir Gar - Newid Dyraniad Tai Cyngor yn y Sir - Penderfynwyd y byddai'r Cynghorydd Linda Williams yn llenwi'r ffurflen ar lein.

Ceisiadau Cynllunio

1389

Ceisiadau Cynllunio:

- Mrs Heidi Morris – Haulfryn, Carwe – Newid Ystafell Gwely i fod yn Siop Trin Gwallt - Dim Gwrthwynebiad.
- Ffoslas Ltd – Cwrs Ffoslas– Rhyddhau Amodau – Dim Gwrthwynebiad.
- Mr Neville Thomas – Fferm Caer Clover, Pontiets – Estyniad – Dim Gwrthwynebiad
- Cyfarwyddwr Tai Cyngor Sir Gar – 49, Maes y Wern, Carwe - Estyniad – Dim Gwrthwynebiad

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r mis

1390 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Chwefror 2016.

Adroddiad Ariannol Misol

- 1391** Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
- a)** Cyflog y Clerc - £371.25 (Mis Chwefror)
 - b)** Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Chwefror)
 - c)** Cydnabyddiaeth y Syrfêwr - £97.52 (Mis Chwefror)
 - ch)** HMRC (Treth)- £74.20 (Mis Chwefror)
 - d)** Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Chwefror)
 - dd)** Stampiau- £12.96
 - e)** Mark Rees - Scalps - £480.00
 - f)** Cyngor Sir Gar - Goleuadau'r Llwybrau - £12015.79

Materion Cynghorwyr

- 1392** Aled
- A byddau modd cael Bagiau Glas i Neuadd Carwe i'w dosbarthu pan fod y Swyddfa Bost ar agor.
- 1393** Ian Eisiau torri'r clawdd ar y llwybr wrth fin y Parc yng Ngharwe - Cysylltu â Martin Murray.
Gofyn eto i'r Cyngor Sir am newid cyflymder y traffig o flaen Ysgol Carwe i 20 milltir yr awr.
Gofyn i'r Cyngor Sir newid enw 'Heol Trimsaran' i Heol Fawr.
- 1394** Tyssul Eisiau Llywodraethwr newydd yn Ysgol y Fro, Llangyndebyrn – Enwebwyd y Cynghorydd Margaret Rees
Penderfynwyd cyfrannu £100 i Gronfa Cadeirydd y Cyngor Sir er lles yr Elusen 'Tenovus'
Lamp yn hongian yn rhydd wrth Waunygwiell Fach, Pedair Heol.

**Cyfarfod nesaf:- 4ydd o Ebrill 2016 yn Swyddfa'r Cyngor, Neuadd Pontiets am 7.00 o'r gloch.
(Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)**

Llofnodwyd..... CADEIRYDD

Dyddiad.....